






TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (hyd at 2021)

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 Crynodeb Gweithredol

## Hydref 2017



# Adroddiad Monitro Blynyddol 2017 ar Gynllun Datblygu Lleol Torfaen

## Crynodeb Gweithredol

**Cefndir** - Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (CDLl) gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 13 Rhagfyr 2013. Mae'r CDLl yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor o ran datblygu a defnyddio tir yn Nhorfaen, a'i bolisïau a'i gynigion i'w gweithredu hyd at 2021. Ers mabwysiadu'r CDLl, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Dyma'r trydydd AMB, ac mae'n seiliedig ar y flwyddyn flaenorol o 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017. Mae gan yr AMB ddwy rôl allweddol, yn gyntaf i ystyried a yw Strategaeth a Pholisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus, ac yn ail, i ystyried yr holl wybodaeth a gesglir ynghylch yr amrywiol ddangosyddion monitro i benderfynu a oes angen adolygu'r Cynllun yn llawn neu'n rannol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Cynllun yn llawn, 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu (Rhagfyr 2017) oni bai fod yr AMB yn nodi fel arall. Mae'r AMB yn monitro effeithiolrwydd o ran cyflwyno'r Cynllun, ei rhinweddau yn nhermau cynaliadwyedd ac unrhyw faterion cyd-destunol fydd yn dylanwadu ar ei weithredu. *Daeth yr ail AMB (2016) i'r casgliad bod 'Tystiolaeth i ddangos bod angen adolygu'r cynllun yn llawn neu'n rhannol ar hyn o bryd. Er gwaethaf y gwaith o hyrwyddo safleoedd, mae cynnydd o ran cyflwyno'r strategaeth yn arafach na'r disgwyl yn bennaf oherwydd yr hinsawdd economaidd gyfredol sy'n effeithio ar y marchnadoedd tai a chyflogaeth. Bydd Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i ystyried yr opsiynau i'w hadolygu yng nghyd-destun y sefyllfa gynllunio cenedlaethol a rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg.*

**Newidiadau Cyd-destunol** - Wrth asesu perfformiad y CDLl ac felly pennu a oes angen adolygu'r CDLl yn llawn neu'n rhannol, mae angen ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol a allai fod wedi effeithio ar gyflwyno'r CDLl neu hyd yn oed gorfodi'r angen i'w adolygu.

**Cyd-destun Cenedlaethol** - yn cynnwys ystyried effeithiau'r bleidlais BREXIT, felly'n arwain at golli grantiau'r UE yn gyfan gwbl a fyddai'n arwain at ddiffyg cyllid i Gymru yn dilyn BREXIT. Yn ogystal â hynny, mae'n ystyried Deddf Cymru 2017, Papur Gwyn Llywodraeth Cymru (Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad), Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch Datganiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; rhagamcanion diweddaraf ynghylch poblogaeth Cymru 2014, diwygiadau posibl i'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru o ran 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Pherfformwyr Teithiol (Chwe. 2017), ac Adolygiad o Gynaliadwyedd Rheoliadau Adeiladu (Mai 2017) Datblygu Dulliau Rheoli Cynaliadwy Adnoddau Naturiol Cymru (Meh. 2017), Galluogi Sipsiwn, Sipsiwn Roma a Theithwyr (Medi 2017), Tasglu'r Cymoedd Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, Llywodraeth Cymru (Gorff. 2017), Ffyniant i Bawb, Llywodraeth Cymru: y strategaeth genedlaethol a nifer o ddogfennau Polisi (diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhif.9; Nodiadau TAN a llythyrau arweiniad.

**Cyd-destun Rhanbarthol** - Llofnodwyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDPRC) gan y 10 Arweinydd Awdurdod Lleol cyfansoddol (o Flaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg), yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a'r Prif Weinidog ar 1 Mawrth 2017. Mae BDPRC yn rhaglen fuddsoddi £1.28 biliwn/ 20-mlynedd sy'n anelu i gyflawni codiad o 5% mewn GYG *('Gwerth Ychwanegol Gros' - sef mesur o werth y nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu a'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ardal)* y Rhanbarth drwy gyflwyno ystod o raglenni bydd yn cynyddu cysylltedd, gwella seilwaith ffisegol a digidol yn ogystal â dulliau rheoli busnes rhanbarthol. Yn ystod ei oes,

mae partneriaid lleol yn disgwyl i'r BDPRC greu hyd at 25,000 o swyddi newydd a throsoli £4 billion ychwanegol o fuddsoddiadau gan y sector preifat erbyn 2036.

Yn yr un modd, mae'n debygol y bydd Torfaen yn rhan o ardal Cynllun Datblygu Strategol Caerdydd (CDS) yn y dyfodol. Disgwylir i GDS ymdrin â materion trawsffiniol sy'n fwy na phwysigrwydd cymunedol lleol; a gallai gynnwys elfennau strategol CauDLl; fel safleoedd tai / cyflogaeth mwy, cynlluniau trafnidiaeth mawr, ac ati. Mae'r cyd-destun rhanbarthol hwn yn bwysig, ac er bod yr hen 'Gwent gyfan' bellach wedi'i chynnwys yn nifer o Gynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, mae awdurdodau De Ddwyrain Cymru yn dechrau adolygu eu cynlluniau. Y disgwyl oedd y byddai penderfyniad wedi ei wneud ar y CDS ym mis Ionawr 2017; ond mae wedi cael ei ohirio tan ddiwedd y flwyddyn.

**Cyd-destun Lleol** - Yn Nhorfaen mae cynnydd yn cael ei wneud o ran darparu safleoedd tai a ddyrennir yn y CDLl, ac er ein bod yn perfformio'n dda o ran caniatâd cynllunio ar gyfer tai newydd, rydym ar ei hôl hi o ran cyrraedd targed Tai y CDLl o 4700 o anheddau a thargedau ardal is-farchnad cysylltiedig. Mae prisiau tai newydd yn parhau i gynyddu ac mae rhagolygon y farchnad dai yn ffafriol. Fodd bynnag, mae cyflymder cyflwyno tai newydd yn is na'r hyn a ragwelwyd yn strategaeth y cynllun. Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 diweddaraf yn dangos bod gan Dorfaen gyflenwad tir ar gyfer tai am 3.6 blynedd; sydd wedi ei gynnal o 2016 ond sy'n dal i fod yn sylweddol is na'r cyflenwad tir 5 mlynedd sy'n ofynnol dan bolisi LlCC. Mae'r cynllun yn perfformio'n dda o ran Cyflenwi Tai Fforddiadwy.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni ei Raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, gan gynnwys agor tair Ysgol Gynradd yn ystod y flwyddyn; mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ei Gynllun Teithio Llesol ar gyfer Torfaen gyda map Rhwydwaith Integredig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn fuan; cafwyd llwyddiant o ran defnyddio cyllid 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' LlG ar gyfer cyflwyno Prosiect Tai Torfaen i gyflymu'r broses o ddarparu unedau tai fforddiadwy. Yn dilyn cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi gwerth £350 miliwn yn Ysbyty Prifysgol y Grange yn Llanfrechfa a ddyrennir fel rhan o Ardal Gweithredu Strategol Llanfrechfa Grange ', dechreuwyd y gwaith cychwynnol ar y safle ym mis Gorffennaf 2017 ond bellach, ni ddisgwylir i'r cyfleuster agor tan y Gwanwyn 2021.

**Monitro'r Polisi Cynllun Datblygu Lleol** - Mae trosolwg o Ddata Monitro'r CDLl ar gyfer AMB 2017 yn rhoi cipolwg diddorol i weithrediad y CDLl dros y cyfnod monitro. Dylid gwneud nodyn arbennig o'r canlynol: -

**<u>Tai</u>**

- Mae Darparu Tai ar ei hôl hi yn ôl targed y CDLl. Hyd yn hyn, mae 2,114 o unedau (44.9% o gyfanswm y gofyniad tai) wedi'u darparu;
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 463 o anheddau preswyl newydd yn ystod y flwyddyn (310 ar gyfer y farchnad a 153 o unedau fforddiadwy);
- Mae'r cynllun yn perfformio'n dda o ran Cyflenwi Tai Fforddiadwy. Mae 118 o unedau eraill wedi'u darparu. Hyd yma yn erbyn targed o 1,132 mae 700 neu 61% wedi cael eu darparu;
- Mae'r Datganiad Drafft Tir Cyffredin ar gyfer Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn dangos y bydd y ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai wedi ei gynnal ar ffigur 2016, sef 3.6 blynedd. Fodd bynnag, mae'r ffigwr yn llawer is na'r ffigur 5 mlynedd sy'n ofynnol;
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar raddfa fawr ar gyfer De Sebastopol a chyn Ysgol Gyfun Llantarnam gyda gwaith yn mynd rhagddo ar y ddau safle;
- Cyflwynwyd Cais Cynllunio Amlinellol a Chais Adeilad Rhestredig ar gyfer y cynllun adfywio mawr yn Ardal Weithredu Mamheilad (Polisi SAA4) a'r Cais Materion manwl a

gedwir yn ôl ar gyfer Cyfnod 2 o Hen Safle Coleg yr Heddlu, Sain Derfel (Polisi H1 / 2); a

- Mae'r Adolygiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy Blynyddol wedi dangos y dylai'r canrannau tai fforddiadwy a throthwyon maint y safle aros yn ddigyfnewid.

**Cyflogaeth**

- Ni ddatblygwyd tir cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, cymeradwywyd caniatâd cynllunio ar gyfer 1.3ha o dir cyflogaeth newydd yn cynnwys adeiladu ac ailddatblygu safleoedd presennol. Fodd bynnag, mae darparu tir cyflogaeth yn is o lawer na'r targed.

**Adwerthu**

- Mae Cwmbrân yn parhau i berfformio'n eithriadol o dda fel canolfan isranbarthol gyda chyfraddau swyddi gwag yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfraddau swyddi gwag ym Mlaenafon yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae cyfraddau Pont-y-pŵl wedi amrywio dros gyfnod y cynllun ac ar hyn o bryd maent ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

**Iechyd**

- Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Ysbyty Prifysgol y Grange (Polisi SAA7) ac mae'r gwaith wedi cychwyn ar y safle.

**Adennill Tir / Adfywio**

- Mae'r Cyngor wedi prynu safle Ardal Weithredu SAA5 Y British, sef yr ardal fwyaf sy'n weddill o ddirywiad diwydiant yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae cynllun Glanhau a Gwyrddio i adfer, adfywio ac ailddatblygu'r safle hwn yng Ngogledd Torfaen yn cael ei ddatblygu.

**Addysg**

- Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer nifer o gyfleusterau addysg newydd fel rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor. Mae'r Cyngor yn gweithio ar gynigion i gyflwyno'r Ganolfan Ôl-16 ar y Stribed Dwyreiniol yng Nghwmbrân.

**Cyfraniadau S106 o ddatblygiadau newydd**

- Trwy Ganiatâd Cynllunio a roddwyd yn ystod 2016-2017 sicrhawyd cyfraniadau ariannol gwerth cyfanswm o £1,298,657.00 ochr yn ochr â darpariaeth tai fforddiadwy gan gynllunio a hynny yn sgil datblygiadau newydd i ddarparu cyfleusterau cymunedol gan gynnwys gwelliannau i'r Priffyrdd, Addysg, Hamdden i Oedolion, Cyfleusterau Chwarae i Blant ac adfer Adeilad Rhestredig.

**Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC)**

- Mae gwaith ar baratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Torfaen yn mynd rhagddo gyda chymeradwyaeth Drafft o Atodlen Codi Tâl ASC gan y Cyngor ym Medi 2017 yr ymgynghorir yn ei chylch cyn bo hir..

**Treftadaeth**

- Cynhaliwyd Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth Blaenafon eleni ac fe'i cyflwynir i'w gymeradwyo yng Nghyfarfod y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth ar ei hôl hi'n sylweddol.

**Monitro Strategaeth y CDLl** - Isod, mae crynodeb o'r camau i fonitro'r strategaeth sy'n ymwneud â'r amcanion CDLl a fabwysiadwyd, sy'n defnyddio 'system sgorio goleuadau traffig': -

| **Camau Monitro Diwygiedig** | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Parhau i Fonitro | |
| Angen Hyfforddiant ar Swyddogion; Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol / Briffiau Datblygu; ac Ymchwil Polisi | |
| Adolygu’r Polisi; ac Adolygu’r Cynllun/Strategaeth | |

Mae Tabl 4.1 isod yn crynhoi canlyniadau monitro’r 18 o Amcanion CDLl ar gyfer 2017, a nodir canlyniadau 2016 er mwyn eu cymharu:

| | **Tabl 4.1: LDP Monitro’r Strategaeth - Crynodeb** | | |
|---|---|---|---|
| **Amcanion** | | **Canlyniad 2017** | **Canlyniad 2016** |
| **1** | Sicrhau bod safleoedd gwaith a chyfleoedd manwerthu priodol ac o ansawdd i gefnogi cyflogaeth ar lefel uchel a sefydlog yn cael eu darparu yn Nhorfaen a chreu canol trefi sy’n gystadleuol, modern, economaidd gynaliadwy sy'n ffynnu | | |
| **2** | Hyrwyddo iechyd a lles trwy ddarparu datblygiadau gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, hamdden a chyfleoedd hamdden awyr agored, sy'n hygyrch i bawb | | |
| **3** | Sicrhau nad yw lleoliad y datblygiadau yn arwain at berygl annerbyniol o lifogydd, ymsuddiad neu beryglon iechyd | | |
| **4** | Sicrhau'r ansawdd gorau o ran cynllunio ym mhob datblygiad a darparu amgylcheddau diogel, iach a deniadol | | |
| **5** | Darparu cyfleoedd i sefydlu rhwydwaith o gyfleusterau addysgol o ansawdd sy'n gwasanaethu cymunedau lleol ac yn hygyrch i bob rhan o'r boblogaeth, yn awr, ac yn y dyfodol | | |
| **6** | Diogelu, rheoli a gwella atyniadau a chyfleusterau cynaliadwy i dwristiaid yn Nhorfaen er budd twristiaid a'r gymuned | | |
| **7** | Diogelu a gwella adnoddau diwylliannol a hanesyddol nodedig y Fwrdeistref Sirol | | |
| **8 ac 11** | Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau newydd yn adlewyrchu'r arferion gorau yn nhermau cynaliadwyedd o ran dyluniad a lleoliad, adeiladwaith a gweithredu A lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, ac i addasu i newid yn yr hinsawdd trwy ystyried ei effeithiau yn nyluniad a lleoliad datblygiadau newydd | | |
| **9** | Dyrannu safleoedd mwynau a bod angen, a diogelu adnoddau mwynau priodol rhag sterileiddio | | |
| **10** | Diogelu, rheoli a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol ar draws Torfaen | | |
| **12** | Diogelu a gwella cymeriad tirlun gwerthfawr Torfaen, gan gynnwys mannau agored pwysig ac ymdeimlad o wledigrwydd rhwng aneddiadau | | |
| **13** | Gwarchod safleoedd tir glas trwy alluogi a hyrwyddo'r defnydd mwyaf effeithlon o safleoedd tir llwyd priodol i'w hailddatblygu ar draws Torfaen | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **14** | Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr, diogelu cyflenwadau dŵr a chynyddu effeithlonrwydd y dŵr a ddefnyddir | | |
| **15** | Canfod a gwarchod adnoddau pridd a daearegol pwysig gan gynnwys Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS) a chynnal eu hansawdd | | |
| **16** | Sicrhau bod nifer ac amrywiaeth priodol o safleoedd tai yn cael eu dyrannu i gynnig dewis o ansawdd uchel mewn lleoliadau cynaliadwy, a wasanaethir yn dda gan gyfleusterau hanfodol ac sy'n hygyrch i ystod o ddulliau trafnidiaeth | | |
| **17** | Datblygu seilwaith trafnidiaeth integredig ac effeithlon, trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau cyfathrebu sy'n hygyrch ac yn ddeniadol i bawb, ac annog gostyngiad yn y defnydd o geir preifat | | |
| **18** | Sicrhau bod pobl a sefydliadau'n lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff ac i feithrin hyn trwy ddarparu cyfleusterau rheoli gwastraff rhanbarthol a lleol | | |

O Dabl 4.1 uchod, gellir gweld bod y monitro wedi dangos bod y dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nid oes angen gweithredu pellach ar 10 o'r 18 Amcan yn y CDLl. Mae'r monitro hefyd wedi dangos bod y dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLl yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd mewn 6 o amcanion pellach, ac nad oes modd mynd i'r afael â'r sefyllfa mewn perthynas â 2 ohonynt heb adolygu'r cynllun yn llawn neu'n rhannol. Yn fanwl, mae'r rhesymau dros y canlyniadau monitro hyn wedi'u nodi yn Atodiad A. Ceir crynodeb byr ym mharagraff 4.7 yn nodi'r prif resymau pam nad yw'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni.

**Monitro'r Polisi CDLl** - Mae'r AMB hwn yn adran 4.8 yn adrodd ar gynnydd gweithredu dyraniadau'r CDLl, a phan fydd y cynnydd yn dilyn yr amserlen, mae'n nodi'r camau perthnasol a wneir i barhau i hwyluso broses o gyflawni'r safleoedd perthnasol.

**Monitro Effeithiolrwydd y Polisi CDLl** - Mae amrywiaeth yn effeithiolrwydd polisïau'r CDLl. Mae Tabl 4.4 yn yr AMB hwn yn nodi lle mae problemau o ran gweithredu rhai polisïau a chanfyddir camau gweithredu i geisio mynd i'r afael â hwy.

**Dangosyddion Gorfodol** - Mae Rheoliadau'r CDLl yn nodi nifer o ddangosyddion gorfodol y dylid eu hadrodd yn yr AMB. Mae canlyniadau'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl 4.5 yn y prif adroddiad.

**Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd** - Mae'r adran hon yn manylu ar ganlyniadau Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb AAS. Amlinellir crynodeb o'r canlyniadau yn Nhabl 5.1 isod, gan ddangos gostyngiad mewn effeithiau cadarnhaol yn erbyn yr amcanion ers 2015, ond ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Fodd bynnag, at ei gilydd, yn erbyn Amcanion yr AC, ac er yn is na 2015 mae effaith gadarnhaol gyffredinol yng nghyflwr yr amgylchedd yn cael ei wireddu. Defnyddiwyd methodoleg system goleuadau traffig i ganfod a yw cynnydd yn cael ei wneud tuag at yr amcan perthnasol. Er mwyn crynhoi felly at ddibenion monitro, mae canlyniad gwyrdd yn nodi bod y canlyniadau'n dangos effaith gadarnhaol yn erbyn cyflawni'r amcan, mae canlyniad gwyn yn nodi effaith niwtral ac mae coch yn nodi bod y canlyniadau yn awgrymu effaith negyddol yn erbyn bodloni'r amcan. Mae trosolwg o'r bwrdd gwerthuso isod:

| | |
|---|---|
| Effaith Gadarnhaol tuag at gyflawni'r Amcan | |
| Effaith Niwtral | N |
| Effaith Negyddol tuag at gyflawni'r Amcan | |

Mae'r Tabl 5.1 a ganlyn yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau Monitro Cynaliadwyedd gyda chanlyniadau AMB 2015 a 2016 yn ymddangos er mwyn eu cymharu:

| **Amcanion** | | Canlyniad **2017** | Canlyniad **2016** |
|---|---|---|---|
| 1 a 2 | Galluogi lefelau uchel a sefydlog o gyflogaeth leol yn Nhorfaen (effeithiau cadarnhaol)<br>Cyflawni twf economaidd i gyfrannu at natur gystadleuol busnesau (effeithiau cadarnhaol) | **N** | **N** |
| 3 | Hyrwyddo a gwella twristiaeth gynaliadwy yn Nhorfaen (effeithiau cadarnhaol) | | |
| 4 | Diogelu, rheoli a gwella Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon Safle Treftadaeth y Byd fel cyrchfan ddiwylliannol a thwristiaeth (effeithiau cadarnhaol) | | |
| 5 | Diogelu, rheoli a gwella bioamrywiaeth (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | | |
| 6 | Diogelu a rheoli geoamrywiaeth (effeithiau cadarnhaol) | | |
| 7 | Lleihau llygredd aer a gwella ansawdd aer (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | | |
| 8 | Lleihau llygredd sŵn a golau (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | | |
| 9 | Lleihau'r risg o lifogydd a gan lifogydd (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | **N** | **N** |
| 10 | Gwarchod a gwella adnoddau hanesyddol a'u lleoliadau (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | **N** | |
| 11 | Diogelu a gwella cymeriad tirlun gwerthfawr Torfaen (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | | |
| 12 | Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir ac adeiladau (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | **N** | **N** |
| 13 | Cyflawni newid moddol i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | | |
| 14 | Hyrwyddo dylunio adeiladau cynaliadwy (effeithiau cadarnhaol) | **N** | **N** |
| 15 | Lleihau cynhyrchu gwastraff a gwaredu ar wastraff i safleoedd tirlenwi a gwneud y gorau o ailddefnyddio ac ailgylchu (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | | |
| 16 | Cynnal a gwella ansawdd dŵr (effeithiau cadarnhaol a negyddol) | **N** | **N** |
| 17 | Cyfrannu at gynnydd yn y defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy ar draws y Fwrdeistref Sirol (effeithiau cadarnhaol) | | |
| 18 | Gwella fforddiadwyedd tai (effeithiau cadarnhaol) | | |
| 19 | Gwella amrywiaeth ac ansawdd tai (effeithiau cadarnhaol) | **N** | **N** |
| 20 | Gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau lleol, eu diogelu, a'u gwella o ran maint ac ansawdd (effeithiau cadarnhaol) | **N** | **N** |
| 21 | Gwella cyrhaeddiad addysgol a chynyddu lefelau sgiliau (effeithiau cadarnhaol) | | |
| 22 | Gwella iechyd a lles y boblogaeth (effeithiau cadarnhaol) | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 | Hyrwyddo, cryfhau a gwella hunaniaeth ddiwylliannol cymunedau a gwella cydlyniant cymdeithasol ac amrywiaeth (effeithiau cadarnhaol) | **N** | **N** |

Mae canlyniadau'r gwaith o fonitro Cynaladwyedd yn nodi y canfuwyd effeithiau positif ar y cyfan o ran 13 o’r amcanion ac effeithiau niwtral ar gyfer 9 o amcanion allan o'r 23 o Amcanion Cynaliadwyedd. Eleni, cafodd yr effaith negyddol flaenorol ar gyfer Amcan 10 ei ailasesu fel niwtral oherwydd cynnydd o ran cyflwyno'r rhaglen Gwerthuso Ardal Gadwraeth, yn dilyn llunio rhaglen Gwerthuso Ardal Gadwraeth Blaenafon. Yn gyffredinol fel y nodwyd yng Nghynllun Monitro Blynyddol 2016 mae'r tabl yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud yn y mwyafrif o'r amcanion cynaliadwyedd a nodwyd,at ei gilydd, yn erbyn yr ystod o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r rhesymau dros y canlyniadau monitro hyn wedi'u nodi'n fanwl yn Atodiad B.

**Casgliadau** - Yr AMB 2017 hwn yw'r trydydd adroddiad monitro a baratowyd ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Rhagfyr 2013. Mae canfyddiadau'r AMB yn gyfle pwysig i'r Cyngor asesu effeithiolrwydd y Cynllun a phenderfynu a oes angen ei adolygu ai peidio.

Yn benodol, mae'r gwaith monitro wedi dangos bod y dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLl yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ar gyfer 5 o Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol, ac nad oes modd mynd i'r afael â'r sefyllfa mewn perthynas â 2 heb adolygu'r cynllun yn llawn neu'n rhannol.

Ystyrir bod y dystiolaeth a gasglwyd o'r trydydd AMB hwn ers mabwysiadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2013 yn dangos bod y strategaeth sylfaenol, er ei bod yn gadarn, yn cymryd gormod o amser i gyflawni, yn enwedig mewn perthynas â datblygu tai a chyflogaeth.

**Argymhellion AMB 2017**

**O ganlyniad i'r uchod, daw Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl 2017 i ben drwy wneud yr argymhelliad canlynol: -**

1. **Mae tystiolaeth i ddangos bod angen adolygu'r cynllun ar yr adeg hon oherwydd bod y cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth yn arafach na'r disgwyl, a hynny’n bennaf oherwydd y dirwasgiad byd-eang a'i effaith ar y marchnadoedd tai a chyflogaeth.**